



# Dull Trawsgyfnod o Gynnal Gweithgareddau Gwyddonol



Datblygiad Personol a Chymdeithasol,  
Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.  
Datblygiad Corfforol.  
Datblygiad Creadigol.



## Cyflwyniad

*Pan fydd gan bobl syniad da o sut y mae gwyddoniaeth yn gweithredu – ynghyd â'r rhestr hollbwysig o gysyniadau gwyddoniaeth allweddol yn sail ar gyfer dysgu rhagor yn ddiweddarach – gallant ddilyn stori antur gwyddoniaeth ar hyd eu hoes, yn ôl y Gymdeithas Americanaidd dros Ddatblygu Gwyddoniaeth.*

## Nod

Datblygu dull trawsgyfnod o gynnal gweithgareddau gwyddonol, trwy nodi cyfleoedd i wella sgiliau ymholi ac ymchwilio'r disgyblion ymhellach, a hynny trwy gyfrwng tasgau integredig, perthnasol a phwrpasol; tasgau a nodwyd yn rhai i ategu a chyfnerthu dysgu, yn unol ag addysgeg y Cyfnod Sylfaen.

## Meysydd

Er bod yna gysylltiad naturiol rhwng gweithgareddau gwyddonol a Gwybodaeth a Dealltwriaeth yn y Cyfnod Sylfaen, mae yna lawer o feysydd eraill ledled y cwricwlwm lle gall sgiliau o'r fath gael eu datblygu, eu hategu a'u cyfnerthu.

Ni chyfeirir yn uniongyrchol at Wybodaeth a Dealltwriaeth, oherwydd ei agosrwydd at Wyddoniaeth, a bydd egwyddorion ymchwilio yn aml yn greiddiol iddo.

Bydd iaith (Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd) yn datblygu trwy gydol y gweithgareddau, wrth i'r disgyblion ddod ar draws geirfa sy'n briodol i'w hoedran/i'r cyfnod (gweler y Ddogfen Geirfa sy'n Briodol i Oedran/i'r Cyfnod).

Mae'r gwaith hefyd yn mynd i'r afael â datblygiad mathemategol, a hynny trwy ddatrys problemau, a chofnodi a dehongli canlyniadau wrth wneud gweithgareddau gwyddonol.

## Gweithgareddau

Mae'r gweithgareddau a nodir wedi cael eu creu yn unol â Fframwaith y Cyfnod Sylfaen, ac maent yn cyfeirio at yr agweddau a amlinellir yn yr adrannau:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.
- Datblygiad Corfforol.
- Datblygiad Creadigol.

Dylid defnyddio'r gweithgareddau fel syniadau ac ysgogiadau, a gellir eu defnyddio fel tasgau â ffocws, gwell tasgau, neu dasgau parhaus wrth gyflwyno sesiynau. **Nid cynlluniau gwersi mo'r rhain, ac nid ydynt yn rhoi sicrwydd yr ymdrinnir â gofynion statudol y Cyfnod Sylfaen.**

Efallai y bydd angen **asesiadau risg** pwrpasol ar gyfer rhai gweithgareddau, a dylid cynnal y rhain yn unol â pholisi'r ysgol.

Er bod y Cyfnod Sylfaen yn pontio (hyd at) bedair blwyddyn academiaidd, gellir addasu pob gweithgaredd i allu ac oedran y plentyn/garfan.

Stuart Jacob

ERW Arweinydd Dysgu ar gyfer Gwyddoniaeth Gynradd

stuart.jacob@erw.org.uk

## Gweithgareddau Gwyddoniaeth y Cyfnod Sylfaen

### Dull Trawsgyfnod o Gynnal Gweithgareddau Gwyddonol

#### Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

##### Datblygiad Personol

- 1) Gofalu am bysgodyn aur y dosbarth
- 2) Griffth broga a phenbyliaid

##### Datblygiad Cymdeithasol

- 1) Y Wiwer Wibiog
- 2) Y Nadolig mewn gwlad bell

##### Lles

- 1) Hunaniaeth/hunan-barch
- 2) Peintio Maisha
- 3) Lles corfforol
- 4) Amser byrbryd

##### Dysgu Sut i Ddysgu

- 1) Gwneud bwgan brain
- 2) Y trê'n trist

#### Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

##### Datblygu sgiliau

\*) Gweler y tabl

##### Lleoedd a Phobl

- 1) Y maes awyr

##### Amser a Phobl

- 1) Bywyd yn yr 1960au

##### Fi fy Hun a Phethau Byw Eraill

- 1) Wyau byw

##### Fi fy Hun a Phethau Anfyw

- 1) Pasta a Pizza

- Arsylwi
- Cymharu
- Dosbarthu
- Ymholi
- Archwilio ac arbrofi
- Gwranddo
- Gwneud penderfyniadau
- Rhagfynegi a phrofi
- Myfyrio
- Disgrifio
- Trefnu a grwpio
- Dilyniannu
- Gofyn/ateb cwestiynau
- Ymchwilio
- Meddwl
- Datrys problemau
- Cofnodi
- Cyfathrebu
- Gwerthuso

#### Datblygiad Corfforol

##### Chwarae Corfforol

- 1) Symud fel trychfilod
- 2) Sfferau mewn bwced

##### Datblygu Sgiliau Corfforol

- 1) Sgiliau echddygol bras
- 2) Ymateb i gerdd am yr hydref
- 3) Sgiliau echddygol manwl

##### Iechyd a Diogelwch, yn cynnwys Bwyta'n Iach a Lles

- 1) Materion Diogelwch
- 2) Byw'n iach
- 3) Bwyta'n iach
- 4) Gwneud Cawl Cennin a Thatws

#### Datblygiad Creadigol

##### Datblygiad Creadigol

- 1) Y plentyn sy'n Datblygu
- 2) Peintio murlun
- 3) Gardd y Cyfnod Sylfaen

##### Celf, Crefft a Dylunio

- 1) Cennin Pedr

##### Cerddoriaeth

- 1) Cerddoriaeth sothach

##### Creadigol

- 1) Rydyn ni'n ddinosoriaid
- 2) Y pantomeim cerddorol

## Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

### Datblygiad Personol

#### 1) Gofalu am Bysgodyn Aur y Dosbarth

| Cyd-destun                                        | Ysgogiad                                                                                            | Gweithgaredd a Awgrymir                                                                     |
|---------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------|
| Ble y mae pysgod aur yn byw?                      | Pa fath o bowlen sy'n un dda ar gyfer pysgodyn aur?                                                 | Mathau gwahanol o gynwysyddion – mandyllog/difandwll; tryloyw/di-draidd; bach/mawr, ac ati. |
| Ble y mae anifeiliaid anwes yn byw?               | Pam nad yw cŵn yn byw mewn powlenni pysgod aur? Pam nad yw pysgod aur yn byw mewn cewyll bochdewod? | Gweithgareddau trefnu a dosbarthu/diagramau Venn.                                           |
| Sut y mae anifeiliaid yn symud?                   | Pa anifeiliaid sy'n symud fel fi?                                                                   | Templedi cymalog â phinnau hollt/cyflwyno ysgerbydau.                                       |
| Ein Hanifeiliaid Anwes                            | Pa anifeiliaid anwes sydd gennym ni gartref? A yw llewod yn anifeiliaid anwes da?                   | Pictogramau/Cyfiawnhau atebion.                                                             |
| Beth y mae pysgod aur yn ei fwyta?                | A fyddai pysgod aur yn hoffi cinio ysgol? Beth sydd yn fy mlwch brechdanau?                         | Gwneud 'fflawiau pysgod' – maint/lliwiau.                                                   |
| Beth yw hwn?                                      | A yw pob anifail yn edrych yr un fath?                                                              | Ysgerbydau anifeiliaid/silwetau (pypedau cysgod). Anifeiliaid mewn bagiau cudd/teimlo.      |
| A yw pysgod aur yn cysgu?                         | Pam y mae llygaid pysgod aur bob amser ar agor?                                                     | Am ba hyd y gallaf i gadw fy llygaid ar agor heb amrantu? Drychau/stopwatshis.              |
| Sut y mae pysgod aur yn anadlu o dan y dŵr?       | A yw pysgod aer fyth yn dod i fyny i gael aer?                                                      | Ysgyfaint a thagellau/balwnau ar ben ac o dan y dŵr.                                        |
| A yw pysgod aur yn suddo neu'n arnofio?           | Beth fyddai'n digwydd pe bai pysgodyn aur yn stopio nofio?                                          | Suddo ac arnofio/dadleoli dŵr. Rhagfynegi a phrofi.                                         |
| A yw pysgod aur yn siarad?                        | Sut y mae pysgod aur yn gwybod beth y mae pysgod aur eraill yn ei feddwl?                           | Dosbarthu, disgrifio ac ymchwilio i seiniau anifeiliaid.                                    |
| A yw pysgod aur yn hoffi dŵr cynnes neu ddŵr oer? | Ym mha fath o dymheredd y mae pysgod aur yn nofio?                                                  | Rhagfynegi, trafod, teimlo, disgrifio a mesur tymheredd y dŵr – thermomedrau.               |

## Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

### Datblygiad Personol

#### 2) Griffth Broga a Phenbyliaid

| <b>Cyd-destun</b>                          | <b>Ysgogiad</b>                                                  | <b>Gweithgaredd a Awgrymir</b>                                                                                                 |
|--------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Beth yw grifft broga?                      | A allaf i wneud grifft broga?                                    | Papur swigod, botymau, paent, toes chwarae, defnyddiau sothach. Darganfod pethau mewn jeli.                                    |
| Beth fydd yn digwydd i'r grifft broga?     | Beth ydw i'n meddwl fydd yn digwydd i'r grifft broga?            | Sgiliau rhagfynegi a chyfathrebu cynnar.                                                                                       |
| Beth sy'n digwydd i'r grifft broga?        | Ai grifft broga fydd e am byth?                                  | Cylchred bywyd broga/ anifeiliaid/bodau dynol – byrddau stori a diagramau.                                                     |
| Ai o'r grifft broga y des i?               | A yw baban pob anifail yr un fath?                               | Cyfnodau beichiogi amrywiol (wyau, grifft, genedigaeth fyw)/babanod anifeiliaid.                                               |
| Ble y mae brogaod yn byw?                  | Ble y gallwn ni ddarganfod grifft broga?                         | Cynefinoedd – creu cynefinoedd anifeiliaid gyda thywod/brigau/gwellt/Lego, defnyddiau sothach, ac ati.                         |
| Ai broga ydw i?                            | Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol rhwng brogaod a bodau dynol? | Anatomi a darnau allweddol o gyrff bodau dynol.                                                                                |
| A yw pob broga yn wyrdd?                   | A oes gan frogaod groen o liwiau gwahanol, fel sydd gan bobl?    | Cymysgu paent i wneud lliwiau eilaidd/trydyddol i gyd-fynd â rhywogaethau gwahanol o frogaod. Gweithgareddau dosbarthu/trefnu. |
| A yw broga fel glöyn byw?                  | A yw brogaod a glöynnod byw yn debyg?                            | Cymharu cylchredau a chymharu bywyd grifft – brogaod ag wyau – glöynnod byw.                                                   |
| O beth y mae grifft broga wedi'i wneud?    | A allaf i gael gwell golwg?                                      | Defnyddio chwyddwydrau i edrych ar y grifft broga. Disgrifio/cyfathrebu arsylwadau a newidiadau.                               |
| Ym mha ffordd y mae grifft broga fel jeli? | Sut yr ydyn ni'n gwneud jeli?                                    | Gwneud jeli o bowdr a dwysfwyd/rhesinau ar gyfer y grifft. Newidiadau anghildroadwy.                                           |

## Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

### Datblygiad Cymdeithasol

#### 1) Y Wiwer Wibiog

| <b>Cyd-destun</b>                                               | <b>Ysgogiad</b>                                                   | <b>Gweithgaredd a Awgrymir</b>                                                                                                                 |
|-----------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| A yw pob gwiwer yr un fath?                                     | A yw pob gwiwer yn edrych yr un fath ac yn ymddwyn yn yr un modd? | Trefnu/cyfateb/dosbarthu a disgrifio mathau gwahanol o wiwerod.                                                                                |
| Ble y mae gwiwerod yn byw?                                      | A yw pob gwiwer yn byw mewn coeden?                               | Arsylwi ar gynefinoedd a chreu cynefinoedd. Creu cynefinoedd ar gyfer gwiwerod tegan (o feintiau gwahanol) gan ddefnyddio defnyddiau naturiol. |
| Beth y mae gwiwerod y ei fwyta?                                 | A yw pob hedyn/cneuen yr un fath?                                 | Tyfu mathau gwahanol o hadau.                                                                                                                  |
| A all moch coed ddarogan y tywydd?                              | Beth sy'n digwydd i foch coed mewn mathau gwahanol o dywydd?      | Arsylwi ar/disgrifio newidiadau i foch coed dan amodau cynnes/oer a sych/gwlyb.                                                                |
| A yw gwiwerod yn gwisgo esgidiau?                               | A yw ôl traed pob anifail yr un peth?                             | Disgrifio, dosbarthu a threfnu anifeiliaid yn ôl eu holion traed. Rhagfynegi pa olion traed/anifeiliaid sy'n cyfateb.                          |
| Ym mha goed y gallwn ni ddod o hyd i wiwerod?                   | Sut yr ydyn ni'n gwybod pa fath o goed ydyn nhw?                  | Disgrifio, cyfateb a dosbarthu dail – coed.                                                                                                    |
| Faint o anifeiliaid y gallwn ni ddod o hyd iddyn nhw mewn coed? | Pa anifeiliaid eraill sy'n byw mewn coed?                         | Cynefinoedd a bywyd gwyllt – arwain at helfa trychfilod.                                                                                       |
| Sut y mae hadau masarn yn hedfan i'r ddaear?                    | Sut y mae hadau yn debyg i hofrenyddion?                          | Taflu a disgrifio hadau masarn – cymharu â hofrenyddion a hadau eraill.                                                                        |
| Ble y mae gwiwerod yn cysgu?                                    | Beth yw gaeafgysgu?                                               | Trefnu a dosbarthu anifeiliaid sy'n gaeafgysgu.                                                                                                |
| Beth sydd yn y goedwig?                                         | Beth y gallaf i ei weld ar daith natur?                           | Rhagfynegi ac arsylwi ar yr hyn y maent yn ei weld ar daith natur, a thrafod a chofnodi hynny.                                                 |

## Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

### Datblygiad Cymdeithasol

#### 2) Y Nadolig mewn Gwlad Bell

| <b>Cyd-destun</b>                                      | <b>Ysgogiad</b>                                      | <b>Gweithgaredd a Awgrymir</b>                                                                                                          |
|--------------------------------------------------------|------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Sut y mae goleuadau coeden Nadolig yn gweithio?        | A allaf i wneud i'r goleuadau ddod ymlaen?           | Llunio cylchedau syml – dan arweiniad/yn annibynnol.                                                                                    |
| Pa seren yr oedd y tri gŵr doeth wedi ei dilyn?        | A yw pob seren yr un fath?                           | Defnyddio telesgopau/ysbienddrychau a chwyddwydrau i edrych ar wrthrychau. Tasgau sy'n seiliedig ar gysawd yr haul.                     |
| Sut yr oedd y tri gŵr doeth wedi croesi'r diffeithdir? | Pam yr oedden nhw wedi defnyddio camelod?            | Pa wrthrychau sy'n ddefnyddiol ar gyfer cario dŵr? – gweithgareddau hambwrdd dŵr. Camelod mewn hambwrdd tywod i ail-greu'r siwrnai.     |
| A yw pob seren yn disgleirio?                          | A yw'r Lleuad yn cynhyrchu golau?                    | Dosbarthu ffynonellau golau. Gweithgareddau adlewyrchu.                                                                                 |
| Beth sydd yn yr awyr?                                  | Pam y mae siâp y Lleuad yn newid?                    | Gweddau'r Lleuad.                                                                                                                       |
| Pam y mae canhwylau'n bwysig adeg y Nadolig?           | Beth sy'n digwydd i gannwyll pan fydd wedi'i chynnu? | Newidiadau cildroadwy ac anghildroadwy – sgiliau rhagfynegi/disgrifio ac arsylwi.                                                       |
| Beth yw eira?                                          | A allaf i wneud eira?                                | Newidiadau cildroadwy ac anghildroadwy gan ddefnyddio eira powdrog/ewyn eillio – sgiliau rhagfynegi/disgrifio ac arsylwi.               |
| Ble y mae Siôn Corn yn byw?                            | Sut le yw Pegwn y Gogledd?                           | Rhewi ac ymdoddi (anifeiliaid y pegwn a chiwbiau iâ) – newidiadau cildroadwy ac anghildroadwy. Sgiliau rhagfynegi, arsylwi a disgrifio. |
| A allaf i wneud i fy seren/addurn ddisgleirio?         | Pa ddefnydd yw'r gorau?                              | Defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau i addurno sêr, er mwyn gwneud iddynt sgleinio/ddisgleirio.                                           |
| A yw ceirw'n hedfan?                                   | Sut y mae ceirw Siôn Corn yn hedfan?                 | Trafodwch a dewiswch pa anifeiliaid eraill a allai helpu Siôn Corn pe byddai ei geirw'n sâl – dosbarthu.                                |
| A allaf i ddyfalu beth yw'r rhodd?                     | Pa synhwyrâu y gallaf i eu defnyddio i'm helpu?      | Dyfalw'r rhodd sydd wedi'i lapio trwy ddefnyddio sgiliau rhagfynegi, disgrifio ac arsylwi.                                              |
| Beth ddigwyddodd ar y noson serenog honno?             | Sut y cafodd y preseb ei oleuo gan y sêr?            | Pypedau cysgod i ailddweud yr hanes, a thrafod arsylwadau.                                                                              |

## Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

### Lles

#### 1) Hunaniaeth / Hunan-barch

| Cyd-destun                                  | Ysgogiad                                                                      | Gweithgaredd a Awgrymir                                                                                                                                               |
|---------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Pwy ydw i?                                  | Sut yr ydw i'n debyg/yn wahanol i eraill?                                     | Defnyddio drychau i nodi a disgrifio nodweddion. Dosbarthu nodweddion – lliw gwallt/llygaid – i boblogi pictogramau/graffiau.                                         |
| O beth yr ydw i wedi fy ngwneud?(i)         | Pa rannau o'r corff sydd gen i ar y tu allan?                                 | Disgrifio ac archwilio sut i ddefnyddio aelodau gwahanol o'r corff. Galw i gof eu henwau a'u defnydd.                                                                 |
| O beth yr ydw i wedi fy ngwneud? (ii)       | Pa rannau o'r corff sydd gen i ar y tu mewn?                                  | Disgrifio ac archwilio organau mewnol. Galw i gof y prif organau a'u swyddogaethau.                                                                                   |
| Pam y mae rhai pobl yn fawr a rhai yn fach? | A ydyn ni i gyd yn tyfu ar yr un cyflymder?                                   | Mesur, cymharu a chynrychioli taldra'r plant yn y dosbarth.                                                                                                           |
| A yw maint traed/dwylo pawb yr un peth?     | Ym mha ffordd yr ydyn ni'n debyg (nifer y digidau)/yn wahanol (lled a maint)? | Mesur, cymharu a chynrychioli lled dwylo/meintiau traed y plant yn y dosbarth.                                                                                        |
| Pryd y bydda i'n ddigon hen?                | A fydda i bob amser yn blentyn?                                               | Cylchred bywyd bodau dynol.                                                                                                                                           |
| Ai fy nghysgod i yw hwn?                    | Sut y gallaf i adnabod fy nghysgod?                                           | Creu, trafod a chofnodi cysgodion o siapiau gwahanol a grëwyd gan y plant.                                                                                            |
| Beth y gallaf ei wneud?                     | Sut y mae fy synhwyrâu yn fy helpu?                                           | Gweithgareddau sy'n defnyddio'r synhwyrâu i ragfynegi, disgrifio, arsylwi a myfyrio (bagiau teimlo, mygydau dros y llygaid, ffonau pen, aroglau, blasu bwyd, ac ati). |

## Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

### Lles

#### 2) Peintio Maisha

| Cyd-destun                                       | Ysgogiad                                                                           | Gweithgaredd a Awgrymir                                                                                                       |
|--------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Pa liwiau y gallaf eu gwneud trwy gymysgu paent? | Pa liwiau y gellir eu gwneud trwy gymysgu paent?                                   | Cymysgu lliwiau – newidiadau cildroadwy ac anghildroadwy.                                                                     |
| A yw iâ bob amser yn glir?                       | A allaf i newid lliw iâ?                                                           | Rhagfynegi, arsylwi a chofnodi'r hyn sy'n digwydd i iâ lliw wrth iddo ymdoddi – ar bapur/mewn dŵr.                            |
| A allaf i wahanu jeli?                           | A ellir cadw lliwiau jeli ar wahân?                                                | Rhagfynegi, cynllunio a thrafod caledu jeli lliwiau goleuadau traffig. Creu jeli o liwiau cymysg a lliwiau ar wahân.          |
| A allaf i wahanu iâ?                             | A all lliwiau lolis iâ gael eu cadw ar wahân?                                      | Fel uchod, ond rhewi dŵr lliw mewn camau, yn hytrach na chaledu jeli.                                                         |
| Pa liwiau sy'n ffurfio enfys?                    | Sut y mae enfys yn ffurfio?                                                        | Gweithgareddau anweddu/sychu – sgiliau rhagfynegi, arsylwi a chofnodi.                                                        |
| A allaf i newid lliw dŵr?                        | Beth sy'n diflannu ac yn newid lliw'r dŵr (hydoddi), a beth nad yw'n gwneud hynny? | Gweithgareddau hydoddi/symbylyddion sy'n eferwi (bomiau baddon, fitaminau, ac ati), paent, blawd, tywod, ac ati.              |
| A yw dŵr yn cymysgu'n dda â phob hylif?          | A all hylifau lliw eu cadw eu hunain ar wahân wrth gael eu cymysgu â dŵr?          | Rhagfynegi, arsylwi a chofnodi'r hyn sy'n digwydd wrth i olewau/baentiau marmorï gael eu rhoi mewn dŵr.                       |
| Beth yw caleidosgop?                             | Sut y mae caleidosgop yn gweithio?                                                 | Arsylwi, disgrifio a chofnodi pa newidiadau sy'n digwydd mewn dilyniant caleidosgop – a yw pob profiad yr un fath/yn wahanol? |
| A allaf i newid lliw'r golau?                    | Pa ddefnyddiau/liwiau sydd orau ar gyfer newid/rhwystro golau?                     | Rhagfynegi, darganfod a thrafod canfyddiadau. Llunio cylchedau syml – dan arweiniad/yn annibynnol.                            |

## Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

### Lles

#### 3) Lles Corfforol

| <b>Cyd-destun</b>                                                | <b>Ysgogiad</b>                                            | <b>Gweithgaredd a Awgrymir</b>                                                                                                      |
|------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Beth sy'n digwydd i'm corff pan fyddaf i'n gwneud ymarfer corff? | Ym mha ffordd yr ydw i'n teimlo'n wahanol?                 | Y plant i ragfynegi, arsylwi a chofnodi eu profiadau o effeithiau ymarfer corff ar eu cyrff – anadlu/chwysu/cyfradd curiad y galon. |
| Pam y mae angen i mi gadw'n fywiog?                              | Pam y mae ymarfer corff yn gwneud lles i mi?               | Y plant i archwilio a chofnodi'r buddion i iechyd o wneud ymarfer corff.                                                            |
| Pa bethau sy'n niweidiol i ni?                                   | Pa sylweddau/arferion a allai fy ngwneud i'n sâl/anhwylus? | Archwilio effeithiau dewisiadau o ran ffordd o fyw, yn benodol y rheiny sy'n niweidiol i ni ein hunain/i eraill.                    |
| Pam yr ydw i'n brwsio fy nannedd?                                | Sut y dylwn i frwsio fy nannedd?                           | Arbrawf plisgyn wy mewn hylifau. Brwsio ceg sy'n rhy fawr/cegau tegau. Arbrawf fflworid uwchfioled.                                 |
| Pam yr ydw i'n golchi fy nwylo ar ôl bod i'r tŷ bach?            | Sut y mae germau yn lledaenu?                              | Y plant i orchuddio eu dwylo a'u bysedd â gliter ar ddechrau'r dydd, ac edrych ble y mae'r gliter erbyn amser cinio/mynd adre.      |
| A yw pob moddion yn dda i ni?                                    | Beth y mae moddion yn ei wneud?                            | Dosbarthu a chyfateb moddion i anhwylderau ac afiechydon.                                                                           |
| A yw cwsg yn bwysig?                                             | Pam y mae arnom angen cwsg?                                | Ymchwilio i fanteision noswaith dda o gwsg. Cynrychioli amserau cysgu – pictogram/siart.                                            |
| Sut yr ydw i'n cadw'n ddiogel?                                   | Pa reolau sy'n fy nghadw i'n ddiogel?                      | Helmedau plisgyn wy – y disgyblion i gynllunio, creu a phrofi helmedau plisgyn wy wedi'u gwneud o ddefnyddiau gwahanol.             |

## Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

### Lles

#### 4) Amser Byrbryd

| Cyd-destun                                                                       | Ysgogiad                                                                   | Gweithgaredd a Awgrymir                                                                                                                        |
|----------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Pam y mae arnaf angen byrbryd?                                                   | Beth yr ydw i'n ei fwyta?                                                  | Trafod, trefnu a dosbarthu bwydydd gwahanol yn ôl mathau o fwydydd iach/afiach.                                                                |
| Beth yr ydw i'n hoffi ei yfed?                                                   | A yw pob diod yn iach?                                                     | Ymchwilio i ddioddydd, a'u cyfateb a'u dosbarthu o ran y cynnwys siwgr.                                                                        |
| Pam yr ydw i'n golchi fy nwylo ar ôl bod i'r tŷ bach? – gweler 3) Lles Corfforol |                                                                            |                                                                                                                                                |
| Beth sy'n digwydd i fy mwyd?                                                     | I ble y mae fy mwyd yn mynd?                                               | Ymchwilio i'r system dreulio. Trafod pam y mae angen i ni gnoi. Rhagfynegi beth sy'n digwydd i'n bwyd. Ymchwilio i daith/llwybr ein bwyd.      |
| Beth yw bwyd ffres?                                                              | Sut y gallwn ni gadw bwyd yn ffres?                                        | Rhagfynegi beth fydd yn digwydd i fwyd/hylifau darfodus pan nad ydyn nhw yn yr oergell. Cymharu, trafod a chofnodi gwahaniaethau o arsylwadau. |
| Fy hoff fyrbryd?                                                                 | Pam yr ydw i wedi dewis hwn fel fy hoff fyrbryd?                           | Rhagfynegi hoff fyrbrydau eraill (y grŵp/dosbarth) cyn y sesiwn. Dosbarthu'r atebion yn iach/afiach a naturiol/annaturiol – pictogram.         |
| A yw siocled yn dda i gŵn?                                                       | Pam y mae yna fyrbrydau gwahanol ar gyfer anifeiliaid anwes a bodau dynol? | Trafod, coladu a dosbarthu bwyd/sylweddau sy'n niweidiol/iach.                                                                                 |
| A gafodd fy myrbryd ei wneud neu ei dyfu?                                        | O ble y daeth fy myrbryd?                                                  | Dosbarthu a threfnu mathau gwahanol o fyrbrydau – ystyried o ble y daethant, neu ble y cawsant eu gwneud (milltiroedd awyr).                   |

## Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

### Dysgu Sut i Ddysgu

#### 1) Gwneud Bwgan Brain

| Cyd-destun                                           | Ysgogiad                                              | Gweithgaredd a Awgrymir                                                                                                                                              |
|------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Beth yw bwganod brain?                               | Beth sy'n gwneud bwgan brain da?                      | Y plant i gynllunio, dylunio a gwneud bwgan brain – mawr (tasg ffocws) neu fach (gwell gweithgaredd).                                                                |
| Pa mor effeithiol yw bwganod brain?                  | Sut y gallaf ddod o hyd i'r ateb?                     | Gwneud arolwg o nifer yr adar sydd mewn ardal cyn/ar ôl gosod y bwganod brain y tu allan. Cymharu'r canlyniadau ar gyfer bwganod brain gwahanol.                     |
| A oes gwahaniaeth lle bydd fy mwgan brain yn sefyll? | Sut y gallaf ddod o hyd i'r ateb?                     | Gwneud arolwg o nifer yr adar sydd mewn ardal cyn/ar ôl gosod y bwganod brain y tu allan. Cymharu'r canlyniadau ar gyfer yr un bwgan brain mewn lleoliadau gwahanol. |
| Beth y mae plu yn ei wneud?                          | A oes gan bob aderyn yr un plu?                       | Dadansoddi nifer o blu o adar gwahanol gan ddefnyddio chwyddwydrau. A ydyn nhw i gyd yn edrych yr un fath? Cofnodi arsylwadau a chanfyddiadau.                       |
| A yw pob aderyn yn gallu hedfan?                     | A yw adenydd bob amser yn cael eu defnyddio i hedfan? | Ymchwilio i fathau gwahanol o adar a'u prif ddull o symud, a dosbarthu a thrafod yr adar hynny. Ymchwilio ymhellach i fathau o blu a'u nodweddion.                   |
| Beth sydd mewn wy?                                   | Beth sy'n digwydd y tu mewn i wy?                     | Cylchred bywyd adar – deor wyau/cywion.                                                                                                                              |
| Ble y mae adar yn byw?                               | Beth sy'n gwneud nyth da?                             | Adeiladu nythod gan ddefnyddio defnyddiau naturiol ac wedi'u harbed.                                                                                                 |

## Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

### Dysgu Sut i Ddysgu

#### 2) Y Trên Trist

| Cyd-destun                                         | Ysgogiad                                                                     | Gweithgaredd a Awgrymir                                                                                                                                                      |
|----------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Sut y mae trenau yn gweithio?                      | Sut y mae trenau wedi newid?                                                 | Ymchwilio i sut y mae ffynonellau egni wedi esblygu, a thrafod hynny (glo – trydan).                                                                                         |
| Beth yw egni adnewyddadwy/ anadnewyddadwy?         | A yw lliw fy melin wynt yn ei gwella?                                        | Dosbarthu ffynonellau egni/gwneud melinau gwynt. Cyflwyno newidynnau wrth ddylunio a chreu melinau gwynt.                                                                    |
| Beth yw glo?                                       | Beth y gallaf i ei weld mewn glo?                                            | Chwyddwydrau i edrych ar y manylion mewn glo. Y plant i ddisgrifio a chofnodi eu harsylwadau.                                                                                |
| Ble y gallaf i ddod o hyd i bontydd?               | Beth yw diben pontydd?                                                       | Y plant i ymchwilio i bontydd, a nodi, dosbarthu a chreu rhai gwahanol – profi'r pontydd mewn cyd-destun penodol, yn erbyn meini prawf llwyddiant.                           |
| Pa ddefnydd sydd orau ar gyfer adeiladu trac trên? | Pa ddefnyddiau y gallwn i eu defnyddio i wneud trac trên?                    | Trafod defnyddiau, a chreu rhestr fer o ddefnyddiau 'priodol', a defnyddiau sydd ar gael. Profi'r defnyddiau trwy anfon trenau i lawr ramp i weld pa un sy'n teithio bellaf. |
| A yw trenau mwy yn mynd yn gynt?                   | A yw maint y trên yn gwneud gwahaniaeth o ran pa mor gyflym y mae'n teithio? | Amseru pa mor gyflym mae trenau o feintiau gwahanol yn teithio i lawr ramp – trafod prawf teg, felly gollwng nid gwthio. Rasio trenau yn erbyn ei gilydd.                    |
| A allaf i bweru trên tegan heb ei wthio?           | Pa rymoedd eraill y gellir eu defnyddio i symud y trên tegan?                | Trafod a chynllunio i greu trenau wedi'u pweru gan falwnau. Trafod y maint a'r lliw, ynghyd â'r math o drên/falŵn.                                                           |

## Datblygiad Corfforol

### Chwarae Corfforol

#### 1) Symud fel Trychfilod

| <b>Cyd-destun</b>                     | <b>Ysgogiad</b>                              | <b>Gweithgaredd a Awgrymir</b>                                                                                                                                                 |
|---------------------------------------|----------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Sut yr ydw i'n symud?                 | Pa rannau o'r corff yr ydw i'n eu defnyddio? | Trafod ac arsylwi ar ba rannau o'r corff sy'n fy helpu i symud mewn ffyrdd gwahanol, a chofnodi hynny.                                                                         |
| A allaf i symud fel trychfil?         | Ym mha ffyrdd gwahanol y gallaf i symud?     | Arsylwi ar symudiad amrywiaeth o drychfilod, a'i ddisgrifio a'i efelychu                                                                                                       |
| Sut y mae'n symud?                    | Pam y mae'n symud fel hyn?                   | Trafod ac arsylwi ar sut y mae symudiadau anifeiliaid wedi'u haddasu i'w gallu i oroesi/cynefin, a chofnodi hynny.                                                             |
| Beth yw ysgerbwd?                     | Ble y mae fy sgerbwd?                        | Trafod, ymchwilio a chofnodi defnydd ein hysgerbydau. Cymharu, dosbarthu ac ymchwilio i fertebratau/infertebratau.                                                             |
| Beth yw trychfil?                     | A allaf i enwi rhannau o drychfil?           | Defnyddio chwyddwydrau i arsylwi ar drychfilod, a disgrifio a chofnodi sut olwg sydd arnynt, a sut y maent yn symud.                                                           |
| Ble y mae trychfilod yn byw?(i)       | A allaf i ddod o hyd i drychfil?             | Rhagfynegi a chofnodi lle y ceir hyd i drychfilod. Cynrychioli'r canfyddiadau, a myfyrio arnynt, trwy ddefnyddio siartiau priodol.                                             |
| Ble y mae trychfilod yn byw? (ii)     | Ble y daethom o hyd i'n trychfilod?          | Dylunio a chreu cartrefi ar gyfer trychfilod gan ddefnyddio defnyddiau naturiol. Trafod addasrwydd y dyluniadau, ynghyd â'r lleoliad gorau ar eu cyfer.                        |
| A yw trychfilod yn mynd ar wyliau?    | Beth yw gwesty trychfilod?                   | Disgrifio a chofnodi gweithgaredd trychfilod mewn gwesty trychfilod gan ddefnyddio chwyddwydrau.                                                                               |
| A yw trychfilod yn hoffi cinio ysgol? | Beth y mae trychfilod yn ei fwyta?           | Trafod, rhagfynegi a phrofi beth y mae trychfilod yn ei fwyta yn ôl eu cynefin. Defnyddio chwyddwydrau ac iPads i arsylwi ar y canfyddiadau, a'u cofnodi – dail a phlanhigion. |
| A allaf i newid i fod yn drychfil?    | Ym mha ffordd y bydd arnaf angen newid?      | Y plant i ddylunio a chreu eu gwisgoed trychfilod eu hunain. Gall hyn fod yn ffuglennol neu'n seiliedig ar drychfil go iawn.                                                   |

## Datblygiad Corfforol

### Chwarae Corfforol

#### 2) Sfferau mewn Bwced

| Cyd-destun                             | Ysgogiad                                                       | Gweithgaredd a Awgrymir                                                                                                                                                                                      |
|----------------------------------------|----------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| A yw sfferau mawr yn rholio'n bellach? | A yw maint y sffêr yn effeithio ar ba mor bell y mae'n rholio? | Y plant i rollo sfferau o feintiau gwahanol i lawr ramp, ac i fesur pa un sy'n teithio'r pellter mwyaf/lleiaf – cysylltiad â'r maint? Y plant i ragfynegi, cynnal y dasg a myfyrio arni.                     |
| A yw pob sffêr yn tasgu?(i)            | Pa sfferau sy'n tasgu orau?                                    | Y plant i ollwng sfferau o feintiau gwahanol i ddŵr (o'r un uchder). Y disgyblion i ragfynegi'r canlyniadau a thrafod/myfyrio ar yr arsylwadau.                                                              |
| A yw pob sffêr yn tasgu? (ii)          | Beth sy'n digwydd i'r dŵr pan fyddaf i'n rhoi rhywbeth ynddo?  | Y plant i lenwi silindrau mesur â dŵr, gan ragfynegi ac arsylwi ar y gwahaniaethau yn lefelau'r dŵr pan fydd mathau gwahanol o sfferau yn cael eu gosod ynddynt, a chofnodi hynny.                           |
| A allaf i dasgu tywod?                 | Beth sy'n digwydd pan fyddaf i'n gollwng sffêr i dywod?        | Rhagfynegi ac arsylwi a myfyrio ar yr hyn sy'n digwydd pan gaiff sfferau gwahanol eu gollwng i dywod, a chofnodi hynny – cymharu'r canfyddiadau â gollwng sfferau i ddŵr, a chofnodi hynny. Trafod craterau. |
| A yw pob sffêr yn arnofio?             | Pa sfferau sy'n arnofio, a pha rai sy'n suddo?                 | Rhagfynegi ac arsylwi a myfyrio ar ba wrthrychau sfferig a fydd yn suddo neu'n arnofio mewn dŵr, a chofnodi hynny.                                                                                           |
| Beth arall sy'n sffêr?                 | Pa wrthrychau sfferig sy'n naturiol/annaturiol?                | Nodi, trafod a dosbarthu mathau gwahanol o wrthrychau sfferig.                                                                                                                                               |
| A yw pob planed yn sfferig?            | A yw'r Ddaear yn sfferig?                                      | Ymchwilio i blanedau cysawd yr haul o ran eu maint, eu safle a'u nodweddion, arsylwi arnynt a'u trafod.                                                                                                      |
| Pam nad yw llongau yn sfferig?         | A allaf i gydbwyso darn/darnau o arian ar sffêr sy'n arnofio?  | Ceisio cydbwyso darn/darnau o arian ar sffêr sy'n arnofio. A yw maint y sffêr yn gwneud gwahaniaeth? Y plant i drafod, cofnodi a myfyrio ar y canfyddiadau.                                                  |
| A yw pob balŵn yn arnofio?             | A allaf i wneud i falŵn suddo?                                 | Llenwi balwnau ag aer/dŵr/iâ – gall yr athro neu'r disgyblion arwain ar hyn. Y plant i ragfynegi pa rai a fydd yn arnofio ar/suddo mewn dŵr. Cofnodi, trafod a dosbarthu'r canfyddiadau.                     |

## Datblygiad Corfforol

### Datblygu Sgiliau Corfforol

#### 1) Sgiliau Echddygol Bras

| Cyd-destun                                                                        | Ysgogiad                               | Gweithgaredd a Awgrymir                                                                                                                                                                                                                                                                          |
|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Beth yw cyhyrau?                                                                  | Sut y mae cyhyrau yn gweithio?         | Ymchwilio i sut y mae cyhyrau'n gweithio, a thrafod hynny. Defnyddio bandiau elastig i arddangos sut y mae cyhyrau yn gweithio mewn parau ac yn cyfangu/llaesu.                                                                                                                                  |
| Ble y mae fy nghyhyrau?                                                           | Ai dim ond yn fy mreichiau y maen nhw? | Arsylwi ar fathau gwahanol o symudiadau, eu trafod a'u cofnodi.                                                                                                                                                                                                                                  |
| A yw ein taldra yn gwneud gwahaniaeth o ran pa mor bell y gallwn ni neidio?       | Pa mor bell y gallaf i neidio?         | Rhagfynegi a chyfiawnhau pwy fydd yn gallu neidio bellaf, ym marn y disgyblion – mesur taldra'r plant. Cofnodi, mesur a chymharu canfyddiadau. Myfyrio ar hyn, a gwneud casgliad mewn modd addas i oedran/allu'r disgyblion.                                                                     |
| A yw hyd ein breichiau yn gwneud gwahaniaeth o ran pa mor bell y gallwn ni daflu? | Pa mor bell y gallaf i daflu?          | Rhagfynegi a chyfiawnhau pwy fydd yn gallu taflu bellaf, ym marn y disgyblion – mesur hyd breichiau'r plant. Cofnodi, mesur a chymharu canfyddiadau. Myfyrio ar hyn, a gwneud casgliad mewn modd addas i oedran/allu'r disgyblion.                                                               |
| A yw hyd ein coesau yn gwneud gwahaniaeth o ran pa mor bell y gallwn ni gicio?    | Pa mor bell y gallaf i gicio pêl?      | Rhagfynegi a chyfiawnhau pwy fydd yn gallu cicio pêl bellaf, ym marn y disgyblion – mesur hyd coesau'r plant. Cofnodi, mesur a chymharu canfyddiadau. Myfyrio ar hyn, a gwneud casgliad mewn modd addas i oedran/allu'r disgyblion.<br>Defnyddio olwynion bach, ffyn metr, tapiau mesur, ac ati. |

## Datblygiad Corfforol

### Datblygu Sgiliau Corfforol

#### 2) Ymateb i Gerdd am yr Hydref

| <b>Cyd-destun</b>                            | <b>Ysgogiad</b>                                              | <b>Gweithgaredd a Awgrymir</b>                                                                                                                                                      |
|----------------------------------------------|--------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Beth yw'r hydref?                            | Beth sy'n digwydd yn ystod yr hydref?                        | Trafod ac arsylwi ar sut y mae newidiadau tymhorol yn effeithio ar natur (planhigion ac anifeiliaid), a chofnodi hynny.                                                             |
| Sut yr ydw i'n gwybod ei bod hi'n hydref?    | Beth sy'n digwydd i'r tywydd yn ystod yr hydref?             | Y plant i drafod, rhagfynegi a chymharu patrymau tywydd â phatrymau tywydd tymhorau gwahanol. Defnyddio mesuryddion glaw/thermomedrau i olrhain, mesur a chynrychioli canfyddiadau. |
| Beth yw concyrs?                             | O ble y mae concyrs yn dod?                                  | Dod o hyd i goncyrs ac ymchwilio iddynt, a defnyddio chwyddwydr i arsylwi arnynt. Cofnodi'r canfyddiadau.                                                                           |
| A yw pob concyr yr un fath?                  | A yw pob concyr yn arnofio?                                  | Rhagfynegi a yw pob concyr yn arnofio mewn dŵr, arsylwi arnynt ac ymchwilio i hynny. Trafod a dosbarthu'r canlyniadau.                                                              |
| A yw pob deilen yr un fath?                  | Sut y mae dail yn wahanol?                                   | Dosbarthu a threfnu dail yn ôl lliw, maint, siâp, ac ati.                                                                                                                           |
| A all moch coed ddarogan y tywydd?           | Beth sy'n digwydd i foch coed mewn mathau gwahanol o dywydd? | Arsylwi ar/disgrifio newidiadau i foch coed dan amodau cynnes/oer a sych/gwlyb.                                                                                                     |
| Sut y mae hadau masarn yn hedfan i'r ddaear? | Sut y mae hadau yn debyg i hofrenyddion?                     | Taflu a disgrifio hadau masarn – cymharu â hofrenyddion a hadau eraill.                                                                                                             |
| Pryd y mae anifeiliaid yn cysgu?             | Beth yw gaeafgysgu?                                          | Trefnu a dosbarthu anifeiliaid sy'n gaeafgysgu.                                                                                                                                     |
| A allwn i aeafgysgu?                         | Beth y byddai arnaf ei angen?                                | Trafod, cyfiawnhau a blaenoriaethu eitemau y byddent eu hangen pe byddai'r disgyblion yn gaeafgysgu.                                                                                |
| Beth sydd yn y goedwig?                      | Beth y gallaf i ei weld ar daith natur?                      | Rhagfynegi ac arsylwi a myfyrio ar yr hyn y byddant yn ei weld ar daith natur yn yr hydref, a thrafod a chofnodi hynny.                                                             |

## Datblygiad Corfforol

### Datblygu Sgiliau Corfforol

#### 3) Sgiliau Echdddygol Manwl

| Cyd-destun                                                                | Ysgogiad                                       | Gweithgaredd a Awgrymir                                                                                                                                  |
|---------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Ar gyfer beth y gallaf i ddefnyddio fy nwylo?                             | Faint y gallaf ei ddal?                        | Tynnu llun o gwmpas y dwylo a mesur eu lled. A yw dwylo mwy yn gallu dal mwy o farblis, blociau, ac ati?                                                 |
| A yw fy nwylo i yr un fath â dy ddwylo di?                                | Sut y gallaf ddweud bod fy nwylo i yn wahanol? | Cymryd olion bysedd gan ddefnyddio paent/inc. Y plant i gymharu samplau gan ddefnyddio chwyddwydrau/y cyfleuster chwyddo ar iPads i gymharu canlyniadau. |
| Gellir hefyd addasu'r gweithgareddau uchod ar gyfer y traed/bysedd traed. |                                                |                                                                                                                                                          |
| A allaf i wneud symudiadau bach?                                          | Sut y gallaf i symud gwrthrychau bach?         | Y plant i ddefnyddio gefeiliau bach i symud/ wahanu a threfnu gwrthrychau bach.                                                                          |
| A fydd yn ffitio?                                                         | A allaf i reoli cortyn?                        | Gweithgareddau edafu a gleinio gyda thyllau/ gwrthrychau o feintiau gwahanol.                                                                            |

## Datblygiad Corfforol

### Iechyd a Diogelwch, yn cynnwys Bwyta'n Iach a Lles

#### 1) Materion Diogelwch

| Cyd-destun                                   | Ysgogiad                                      | Gweithgaredd a Awgrymir                                                                                                                                                                                             |
|----------------------------------------------|-----------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Pam y mae adeiladwyr yn gwisgo helmedi?      | Pam y dylwn i amddiffyn fy mhen?              | Defnyddio defnyddiau gwahanol i wneud helmedi diogelwch ar gyfer wyau. Y plant i ddylunio, creu, profi a gwerthuso pa ddefnyddiau sy'n gweithio orau. Y plant i drefnu/ddosbarthu mathau gwahanol o helmedi.        |
| Sut y gallaf i gadw'n ddiogel?               | Pa reolau y gallwn ni eu dilyn?               | Trafod rheolau hysbys o ran: <ul style="list-style-type: none"><li>• Rheolau'r ysgol</li><li>• Diogelwch dŵr</li><li>• Diogelwch trydanol</li><li>• Hylendid</li><li>• Peryglon</li></ul> Trefnu a nodi tueddiadau. |
| Beth y gallaf i ei wisgo i'm cadw'n ddiogel? | Pa rannau o'm corff y gallaf i eu hamddiffyn? | Nodi ac ymchwilio i offer diogelwch, eu trafod a'u dosbarthu. Goglau diogelwch, sbectol, helmedi, gardiau crimogau/ysgwyddau.                                                                                       |
| Sut y gallaf i gadw'n ddiogel wrth ymyl dŵr? | Beth a allai fy helpu?                        | Defnyddio defnyddiau gwahanol i wneud siacedi achub bywyd ar gyfer ffigurau sy'n gallu suddo. Y plant i ddylunio, creu, profi a gwerthuso pa ddefnyddiau sy'n gweithio orau.                                        |
| A yw bob amser yn helpu?                     | A yw pob moddion yn ddiogel?                  | Trafod a dosbarthu moddion, gan ystyried tocsinau, dibenion ac anhwylderau.                                                                                                                                         |

## Datblygiad Corfforol

### Iechyd a Diogelwch, yn cynnwys Bwyta'n Iach a Lles

#### 2 a 3) Bwyta'n/Byw'n Iach

| Cyd-destun                                                                                            | Ysgogiad | Gweithgaredd a Awgrymir |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------|-------------------------|
| Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol<br>Lles Corfforol Amser Byrbryd |          |                         |

## Datblygiad Corfforol

### Iechyd a Diogelwch, yn cynnwys Bwyta'n Iach a Lles

#### 4) Gwneud Cawl Cennin a Thatws

| Cyd-destun                                | Ysgogiad                        | Gweithgaredd a Awgrymir                                                                                                                                                                                                                                   |
|-------------------------------------------|---------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Sut y mae cennin yn cael eu gwneud?       | A allaf i wneud cenhinen?       | Tyfu cennin o had. Ystyried, rhagfynegi a chofnodi'r amodau gorau ar gyfer tyfu cennin, ac ystyried meini prawf llwyddiant ar gyfer <i>beth sy'n gwneud cenhinen yn genhinen dda?</i>                                                                     |
| Pa mor fawr y gallwn ni wneud ein cennin? | Sut y gallwn ni fesur maint?    | Tyfu/prynu a chymharu cennin o feintiau gwahanol. <i>A yw cennin hirach bob amser yn pwyso mwy?</i> Y plant i ddatblygu sgiliau pwyso a mesur.                                                                                                            |
| Sut flas sydd ar gennin?                  | A ydw i'n hoffi cennin?         | Blasu cennin sydd wedi cael eu paratoi/coginio mewn ffyrdd gwahanol. Y plant i drafod a chynrychioli eu hoff ddulliau trwy graffiau/siartiau.                                                                                                             |
| O beth y mae cennin wedi'u gwneud?        | Beth sydd y tu mewn i genhinen? | Dyrannu/torri/datod cennin. Edrych ar y rhannau gwahanol trwy chwyddwydrau, gan gofnodi'r canlyniadau. Y plant i drafod a labelu'r rhannau gwahanol sydd i genhinen: y gwreiddiau, y dail, y bylbiau, ynghyd â'r lliwiau a'r newid graddol o wyrdd i wyn. |
| Sut y mae tatws yn cael eu gwneud?        | A allaf i wneud taten?          | Tyfu tatws o had. Ystyried, rhagfynegi a chofnodi'r amodau gorau ar gyfer tyfu tatws, ac ystyried meini prawf llwyddiant ar gyfer <i>beth sy'n gwneud taten yn daten dda?</i>                                                                             |
| Pa mor fawr y gallwn ni wneud ein tatws?  | Sut y gallwn ni fesur maint?    | Tyfu/prynu a chymharu tatws o feintiau gwahanol. Y plant i ddatblygu sgiliau pwyso a mesur.                                                                                                                                                               |
| Sut flas sydd ar datws?                   | A ydw i'n hoffi tatws?          | Blasu tatws sydd wedi cael eu paratoi/coginio mewn ffyrdd gwahanol. Y plant i drafod a chynrychioli eu hoff ddulliau trwy graffiau/siartiau.                                                                                                              |

|                                   |                                     |                                                                                                                                                       |
|-----------------------------------|-------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| O beth y mae tatws wedi'u gwneud? | Beth sydd y tu mewn i daten?        | Torri ac arsylwi ar y rhannau gwahanol o daten. Cofnodi'r arsylwadau a wneir trwy ddefnyddio chwyddwydrau a/neu iPads.                                |
| A all cennin newid eu lliw?       | Sut y gallaf i newid lliw cenhinen? | Trochi gwreiddiau cennin llawn maint mewn lliw bwyd crynodedig iawn am sawl diwrnod. Rhagfynegi, trafod, arsylwi ar y cennin, a chofnodi'r effaith.   |
| A fydd yn diflannu?               | I ble y mae wedi mynd?              | Trafod a rhagfynegi beth fydd yn digwydd i grafion/ wastraff cennin a thatws dros amser. Cofnodi a thrafod y canfyddiadau, yn seiliedig ar gompostio. |
| Sut yr ydych chi'n gwneud cawl?   | A allaf i wneud cawl?               | Trefnu/ysgrifennu cyfarwyddiadau (dull) ar gyfer gwneud cawl.                                                                                         |
| A allaf i wneud cawl?             | A allaf i ddilyn cyfarwyddiadau?    | Dilyn rysáit (dull), gan ddefnyddio sgiliau pwysol/ cydbwysu, amseru a chyfathrebu.                                                                   |

## Datblygiad Creadigol

### Datblygiad Creadigol

#### 1) Y Plentyn sy'n Datblygu

| Cyd-destun                                                                                            | Ysgogiad                          | Gweithgaredd a Awgrymir                                                                                                              |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol<br>Lles: Hunaniaeth/Hunan-barch |                                   |                                                                                                                                      |
| Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol<br>Lles: Lles Corfforol         |                                   |                                                                                                                                      |
| A allaf i wneud person?                                                                               | Pa rannau y mae arnaf eu hangen?  | Gwneud model o berson trwy ddefnyddio defnyddiau sothach, clai modelu, toes chwarae, ac ati. Galw i gof ac enwi prif rannau'r corff. |
| A allaf i lunio person?                                                                               | Beth y mae angen i mi ei gynnwys? | Tynnu llun o berson. Galw i gof ac enwi rhannau gwahanol a phrif rannau'r corff.                                                     |

## Datblygiad Creadigol

### Datblygiad Creadigol

#### 2) Peintio Murlun

| Cyd-destun                                                                                    | Ysgogiad | Gweithgaredd a Awgrymir |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------|----------|-------------------------|
| Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol<br>Lles: Peintio Maisha |          |                         |

## Datblygiad Creadigol

### Datblygiad Creadigol

#### 3) Gardd y Cyfnod Sylfaen

| Cyd-destun                                                                                        | Ysgogiad                               | Gweithgaredd a Awgrymir                                                                                                                                                                                                                                                          |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Sut y mae blodau'n tyfu?                                                                          | Beth sydd ei angen ar blanhigion?      | Tyfu hadau o dan amodau gwahanol. Rhagfynegi, trafod a chofnodi canlyniadau.                                                                                                                                                                                                     |
| Beth sydd mewn blodyn?                                                                            | A oes gan flodyn rannau gwahanol?      | Dyrannu/gwahanu mathau gwahanol o flodau/ blanhigion.<br>Trafod a chofnodi arsylwadau trwy ddefnyddio chwyddwydrau a/neu iPads. Defnyddio gefeiliau bach i wahanu rhannau'r blodyn/planhigyn.                                                                                    |
| Beth sydd mewn pridd?                                                                             | A oes mwy i fwd?                       | Rhidyllu a gwahanu pridd. Gwneud, trafod a chofnodi arsylwadau trwy ddefnyddio chwyddwydrau ac iPads. Defnyddio gefeiliau bach i feithrin rheolaeth echddygol fanwl.                                                                                                             |
| Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol<br>Lles: Y Wiwer Wibiog     |                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
| Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol<br>Lles: Gwneud Bwgan Brain |                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
| Datblygiad Corfforol<br>Chwarae Corfforol: Symud fel Trychfil                                     |                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
| Datblygiad Corfforol<br>Datblygu Sgiliau Corfforol: Ymateb i Gerdd am yr Hydref                   |                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
| A allwn ni dyfu bwyd?                                                                             | Pa ffrwythau/ lysiau y gellir eu tyfu? | Tyfu mathau gwahanol o ffrwythau/lysiau yn yr ystafell ddosbarth/ying ngardd yr ysgol. Arsylwi arnynt, eu trafod a chofnodi'r canlyniadau.                                                                                                                                       |
| A yw pob blodyn/planhigyn yn tyfu?                                                                | A allaf i wneud planhigyn/blodyn?      | Cynllunio, trafod a chreu mathau gwahanol o flodau a phlanhigion trwy ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau (Lego, toes chwarae, defnyddiau sgrap, ac ati).                                                                                                                          |
| Beth y mae gwreiddiau yn ei wneud? (i)                                                            | A oes gen i wreiddiau? (i)             | Y plant i yfed hylifau o liwiau gwahanol (sgwash/cordial) gan ddefnyddio gwellt clir, a chymharu hynny â sut y mae planhigion yn defnyddio gwreiddiau.                                                                                                                           |
| Beth y mae gwreiddiau yn ei wneud? (ii)                                                           | A oes gen i wreiddiau? (ii)            | Y plant i ddefnyddio silindrau mesur, chwistrellau, twndisau a phibellau i echdynnu dŵr, ac i fodelu rôl gwreiddiau planhigion.                                                                                                                                                  |
| A all planhigion newid eu lliw?                                                                   | A allaf i newid lliw planhigyn?        | Gosod coesynnau planhigion/blodau (cennin Pedr, rhosynnau, seleri, llygaid y dydd, ac ati) mewn lliw bwyd crynodedig, a thrafod, cofnodi a chasglu tystiolaeth am yr arsylwadau.                                                                                                 |
| I ble y mae planhigion sâl yn mynd i wella?                                                       | A allaf i fod yn feddyg planhigion?    | Trafod ac arsylwi ar blanhigion, ac adnabod sut olwg sydd ar blanhigyn iach. Rhoi cyfleoedd i blanhigyn 'afiach' ffynnu a'i adfer ei hun trwy ei osod mewn amgylchedd sy'n ffafriol iddo wella. Trafod ac arsylwi ar y newidiadau, a'u cofnodi a rhoi rhesymau am yr effeithiau. |

## Datblygiad Creadigol

### Celf, Crefft a Dylunio

#### 1) Cennin Pedr

| Cyd-destun                                     | Ysgogiad                                                 | Gweithgaredd a Awgrymir                                                                                                                                                 |
|------------------------------------------------|----------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| A allaf i dyfu cenhinen Bedr?                  | Beth sydd ei angen ar blanhigion i dyfu?                 | Tyfu bylbiau cennin Pedr o dan amodau gwahanol; trafod, cofnodi a chasglu tystiolaeth am yr arsylwadau.                                                                 |
| Beth sydd mewn bwlb?                           | A yw bwlb yr un peth â hedyn?                            | Torri a dyrannu bylbiau cennin Pedr, gan wneud a chofnodi arsylwadau gyda chwyddwydrau a/neu iPads.                                                                     |
| O beth y mae cenhinen Bedr wedi'i gwneud?      | A oes gan genhinen Bedr rannau i'w chorff?               | Dyrannu cennin Pedr; trafod, cofnodi a gwneud arsylwadau. Gwahanu rhannau o'r planhigyn â gefelliau bach, a defnyddio chwyddwydrau/iPads i helpu gyda'r gwaith arsylwi. |
| A yw pob cenhinen Bedr yn felyn?               | A allaf i newid lliw cenhinen Bedr?                      | Gosod (coesynnau) cennin Pedr mewn dŵr o liwiau gwahanol (lliw bwyd); rhagfynegi, trafod a myfyrio ar yr effeithiau.                                                    |
| A allaf i wneud cenhinen Bedr heb blannu bwlb? | Mewn sawl ffordd wahanol y gallaf i wneud cenhinen Bedr? | Gwneud model o genhinen Bedr trwy ddefnyddio defnyddiau sothach, clai modelu, toes chwarae, ac ati. Galw i gof ac enwi rhannau gwahanol a phrif rannau'r planhigyn.     |
| A yw cennin Pedr fel planhigion eraill?        | A yw pob planhigyn yr un fath?                           | Dyrannu cennin Pedr a blodau eraill. Trafod yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng y planhigion. Defnyddio offer tebyg i efelliau bach a chwyddwydrau.            |
| Pa mor sychedig yw cennin Pedr?                | Faint o ddŵr y mae cennin Pedr yn ei yfed?               | Mesur faint o ddŵr sydd ei angen ar gennin Pedr trwy eu gosod mewn jwg mesur o ddŵr, a chyfrifo/marcio/mesur faint o ddŵr sydd wedi diflannu.                           |

## Datblygiad Creadigol

### Cerddoriaeth

#### 1) Cerddoriaeth Sothach

| Cyd-destun                                | Ysgogiad                                               | Gweithgaredd a Awgrymir                                                                                                                                                                                                                                                                    |
|-------------------------------------------|--------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Pa seiniau y gallaf i eu gwneud?          | Pa rannau o'm corff sy'n gwneud pa seiniau?            | Trafod, cofnodi a chreu seiniau trwy ddefnyddio rhannau gwahanol o'r corff. Wrth ddefnyddio'r geg i wneud seiniau, anogwch nhw i ddefnyddio drychau i arsylwi ar siâp a lleoliad y gwefusau.                                                                                               |
| Pa sothach a all wneud seiniau?           | Beth sy'n rhaid i mi ei wneud i greu seiniau?          | Rhagfynegi, trafod, profi a chofnodi'r ffyrdd gwahanol o wneud seiniau gydag amrywiaeth o ddefnyddiau (sothach). Dosbarthu a threfnu'r canlyniadau fel a ganlyn: <i>plycio, taro, ysgwyd a chwythu</i> .                                                                                   |
| Am ba hyd y gallaf i wneud sain?          | Pa seiniau y gall fy nghogwch eu gwneud?               | Gwneud sain (anogwch nhw i chwibanu neu hymian), a defnyddio stopwatsh i gofnodi am ba hyd y gellir gwneud y sain mewn un anadl. Defnyddio iPad i gofnodi traw a hyd, yn ogystal â drych i arsylwi ar siâp y geg/gwefusau. Defnyddio graffiau/tablau i gasglu tystiolaeth o'r canlyniadau. |
| Pa mor dawel/uchel y gallaf i wneud sain? | Beth sy'n rhaid i mi ei wneud i greu sain dawel/uchel? | Chwarae offeryn/offeryn sothach, a thrafod beth y mae ar y perfformiwr ei angen i wneud y sain yn dawelach/uwch.                                                                                                                                                                           |
| Pa mor dda y gallaf i glywed?             | A allaf i glywed sain sy'n bell i ffwrdd?              | Cerdded i ffwrdd oddi wrth sain (radio) hyd nes na ellir ei chlywed bellach (bydd angen gwneud hyn y tu allan). Mesur a chofnodi pellterau trwy ddefnyddio olwyn fesur ac iPad. Arddangos y canlyniadau ar graffiau/mewn tablau.                                                           |
| A all dŵr wneud seiniau?                  | A yw swm y dŵr yn newid y math o sain?                 | Y plant i lenwi (yr un) cynwysyddion â symiau gwahanol o ddŵr. Cofnodi'r sain sy'n cael ei chynhyrchu wrth chwythu ar draws yr arwyneb.                                                                                                                                                    |
| A yw llysiau'n gwneud seiniau?            | A allaf i beri i lysieuyn wneud seiniau?               | Gwneud, chwarae a recordio offerynnau ffrwyth/llysiau. Ffliwtiau pannas, drymiau cnau coco, ac ati.                                                                                                                                                                                        |
| A yw'n swnio fel glaw?                    | Sut sain sydd gan law?                                 | Cynllunio, dylunio a gwneud ysgydwy'r sy'n cynnwys mathau gwahanol o rawn. Arsylwi ar trafod ba faint o rawn sy'n swnio debycaf i law, a thrafod a gwerthuso hynny.                                                                                                                        |
| Beth yw ffôn symudol?                     | A allaf i wneud ffôn symudol?                          | Dylunio, gwneud a phrofi ffonau cwpan a llinyn. Newid meintiau'r llinyn/cwpanau a'r math ohonynt.                                                                                                                                                                                          |

## Datblygiad Creadigol

### Creadigol

#### 1) Rydyn ni'n Ddinosoriaid

| Cyd-destun                             | Ysgogiad                              | Gweithgaredd a Awgrymir                                                                                                                                                                 |
|----------------------------------------|---------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Pa mor fawr oedd dinosoriaid?          | A oedd pob dinosor yn fawr?           | Cymharu meintiau dinosoriaid – mesur, llunio a chymharu hydoedd ar y buarth chwarae.                                                                                                    |
| A oedd dinosoriaid yn gwisgo esgidiau? | Pa mor fawr oedd traed dinosoriaid?   | Cymharu a chyferbynnu meintiau traed dinosoriaid gwahanol â thraed y plant yn y dosbarth/anifeiliaid eraill.                                                                            |
| A allaf i wneud dinosor?               | A oedd pob dinosor yr un peth?        | Gwneud model o ddinosor gan ddefnyddio defnyddiau sothach, clai modelu, toes chwarae, ac ati. Galw i gof ac enwi rhannau gwahanol a phrif rannau'r creadur dan sylw.                    |
| A allaf i ddarganfod dinosor?          | Sut y caiff dinosoriaid eu darganfod? | Gweithgareddau palaeontoleg mewn hambyrddau tywod/twff. Defnyddio trywelion, brwshys paent a chwyddwydrau i gynnal cloddiadau.                                                          |
| Beth yw ffosil?                        | Beth y gallwn ni ei weld?             | Cofnodi arsylwadau trwy ddefnyddio chwyddwydrau/iPads. Defnyddio sialc a chreonau i wneud rhwbiadau, a thrafod y canlyniadau.                                                           |
| Pam nad oes yna ddinosoriaid?          | A allaf i wneud crater?               | Creu craterau trwy ddefnyddio peli o feintiau gwahanol a phwysau mewn hambwrdd tywod. Mesur, trafod a chofnodi'r gwahaniaethau rhwng craterau y mae'r newidynnau wedi dylanwadu arnynt. |

## Datblygiad Creadigol

### Creadigol

#### 2) Y Pantomeim Cerddorol

| Cyd-destun                                                  | Ysgogiad | Gweithgaredd a Awgrymir |
|-------------------------------------------------------------|----------|-------------------------|
| Datblygiad Creadigol<br>Cerddoriaeth: Cerddoriaeth Sothach. |          |                         |